

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Adroddiad Atebolrwydd 2019/20

1. Cyflwyniad

Mae gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyhoeddi, fel rhan o'n trefniadau adrodd blynyddol, Adroddiad Atebolrwydd. Diben adran yr Adroddiad Atebolrwydd yn yr Adroddiad Blynyddol yw dangos sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn diwallu'r gofynion sydd arno o ran atebolrwydd ac adrodd.

Mae tair adran i'r Adroddiad Atebolrwydd:

- **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r adran hon yn egluro cyfansoddiad y Bwrdd Iechyd, ei strwythurau a'i drefniadau llywodraethol a sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cyflawni ei amcanion a'i gyfrifoldebau er mwyn diwallu anghenion y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

- **Adroddiad Staff a Chydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â staff y sefydliad, gan ganolbwyntio'n enwedig ar gydnabyddiaeth ariannol ei Fwrdd a'i Uwch Reolwyr, cymarebau cyflog teg a gwybodaeth bellach yn ymwneud â staff, megis gwybodaeth am gyfraddau absenoldebau salwch.

- **Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio**

Mae'r adran hon yn cynnwys ystod o ddatgeliadau ar amllder gwariant, ffioedd, costau, cydymffurfiaeth gyda dyraniad costau, rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol perthnasol, tueddiadau hirdymor o ran gwariant a gofynion codi tâl a osodwyd yng nghanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

2. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Bydd yr adroddiad llywodraethu corfforaethol yn gynnwys y canlynol, o leiaf:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol

2.1 Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn nodi manylion Cyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd yn 2019/20. Amlinellir y wybodaeth hon mewn manylder yn

Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd Iechyd, ar dudalen 18-21. Ceir manylion am aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio, hefyd yn rhan hon yr Adroddiad.

2.2 Buddiannau Aelodau'r Bwrdd

Mae'r ddogfen, y gellir cael mynediad ati drwy ddilyn y ddolen isod, yn rhoi manylion am unrhyw fuddiannau y mae aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi eu datgan hyd at y 31ain o Fawrth 2020, er enghraifft datgan eu bod yn gyfarwyddwr ar sefydliad arall. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar safle We'r Bwrdd Iechyd a gellir cael mynediad ati drwy ddilyn y ddolen hon:

[Datganiadau o Fuddiant 2019/20](#)

2.3 Llywodraethu Gwybodaeth

Mae'r adran hon yn cwmpasu gwybodaeth o ran digwyddiadau sy'n ymwneud â data sydd wedi eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r adran hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol, gan gynnwys 'digwyddiadau anffafriol difrifol'. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gellir dod o hyd iddi ar dudalen 32-33 y ddogfen.

2.4 Gwybodaeth ar Faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymdogol

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymdogol. Mae gan y Bwrdd Fwrdd Rhaglen Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol; sy'n cwmpasu agenda eang gan gynnwys ynni, gwastraff, dŵr a chynaliadwyedd. Caiff ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr dros Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol ac Ysgrifenydd y Bwrdd. Cyfrifoldeb y Bwrdd Rhaglen yw symud agenda cynaliadwyedd y sefydliad yn ei blaen. Caiff cynnydd o ran mentrau a thargedau ynni, dŵr a rheoli gwastraff ei adrodd i'r Bwrdd Rhaglen, yn ogystal â mentrau'n ymwneud â chaffael cynaliadwy, TG a theithio.

Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â iechyd cyhoeddus mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd yr Amgylchedd a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr. Cyflwynir adroddiadau ar ddigwyddiadau amgylcheddol iechyd cyhoeddus i Bwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Llesiant y Bwrdd Iechyd a rhoddir sicrwydd i'r Bwrdd ei hun drwy adroddiadau a'r gofyn iddynt gymeradwyo strategaethau a chynlluniau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, datblygodd y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ynni Ystadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau, ysgogwyr a chyfleodd presennol y Bwrdd Iechyd. Mae'n gwyntyllu sut y gellir gwneud ynni a charbon monocsid yn fwy effeithiol o fewn y sefydliad drwy ddefnyddio arfer gorau, technoleg a thrwy arloesi. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed

heriol sef lleihau carbon o 3% bob blwyddyn am 5 mlynedd, a chaiff y perfformiad ei fesur a'i adrodd yn flynyddol. (Cymeradwywyd y Strategaeth hon gan y Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithiol o ran defnyddio adnoddau i brosesu gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan weithgareddau gofal iechyd. Mae cyfleusterau ailgylchu wedi cael eu sefydlu ar safle pob prif ysbyty, ac maent yn anfon deunydd ailgylchu sydd wedi ei gymysgu ymlaen i gael ei sortio a'i ailbrosesu er mwyn creu cynnyrch a deunyddiau newydd. Gwahenir cardfwrdd a chaiff ei fwndelu ar safle dau brif ysbyty'r Bwrdd Iechyd a'i brosesu mewn i fwndelau maint *mill*.

Caiff y broses o wahanu gwastraff heintus ei werthuso'n barhaus, a phan fo hynny'n bosibl, yn unol â chanllawiau ac arfer gorau, caiff eitemau eu symud a'u cyfeirio at opsiwn gwaredu cost is.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dull gweithredu a fydd yn golygu na fydd unrhyw wastraff o gwbl yn cael ei anfon i safle tirlenwi, mewn cydweithrediad â contractwyr allanol. Yn 2019/20, dim ond 2% o'r holl ysbwriel cyffredinol a anfonwyd i safle tirlenwi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Reoli Amgylcheddol (SRA) a ardystir gan drydydd parti, yn unol â'r safon cenedlaethol ISO 14001:2015.

Datblygwyd y SRA er mwyn bod yn ganolbwynt o ran sbarduno gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n galluogi dull cydweithredol o weithio o ran rheoli mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a mentrau teithio cynaliadwy.

Mae ardystiad yn golygu ein bod, nid yn unig yn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond ein bod hefyd yn mynd gam ymhellach o ran rhoi arfer gorau ar waith ac yn dangos esiampl o fewn y maes gwastraff gofal iechyd a rheolaeth amgylcheddol.

Mae'r sefydliad yn rhoi pwyslais mawr ar gadw'r ardystiad ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd a'n rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau ar flaen y gad yn y maes ailgylchu'r deunydd polypropylene a geir o amgylch offer yr Uned Sterileiddio a Diheintio. Cyn cyflwyno'r fenter ailgylchu roedd yr holl ddeunydd lapio polypropylene o'r Uned Sterileiddio a Diheintio'n cael ei gasglu i mewn i fagiau Gwastraff Peryglus Oren a'i anfon gyda Gwastraff Peryglus. Roedd hyn yn gostus iawn ac yn cael effaith ar yr amgylchedd.

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos bod nifer o fuddion yn deillio o gyfeirio deunydd i ffwrdd o'r ffrwd gwastraff clinigol (2 dunnell y mis ar hyn o bryd), tra'n creu polymer masnachol sydd â gwerth fel nwydd.

2.5 Data Absenoldeb Salwch

Cynyddodd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch y Bwrdd iechyd yn 2019/2020 o 5.29% yn 2018/19 i 6.15% yn 2019/2020. Targed y Bwrdd Iechyd ar gyfer salwch yw 5% o hyd. Effeithiwyd ar y gyfradd salwch gan gynnydd mewn absenoldebau yn ystod mis Mawrth - cynyddodd salwch yn ystod y mis hwn o 5.05% (18/19) i 7.53% (19/20). Roedd hyn ar gychwyn pandemig COVID-19 ac fe achosodd gynnydd sydyn yn y cyfraddau salwch o ganol y mis ymlaen.

Er bod absenoldeb salwch wedi bod yn uchel yn ystod cyfnod y gaeaf, nid yw 50.25% o'n staff wedi bod yn absennol o gwbl oherwydd salwch. O'r 49.75% o staff sydd wedi bod yn absennol oherwydd salwch yn ystod y cyfnod yma, mae hyn yn bennaf oherwydd salwch tymor hir. Y prif resymau dros absenoldeb tymor hir, o hyd, yw problemau cyhyrsgerberbydol a straen/gorbryder ac iselder.

Mae absenoldebau salwch a gwella llesiant yn parhau'n flaenoriaeth uchel, a chefnogir hyn gan y Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 ar draws Cymru gyfan. Newidiodd y polisi'r pwyslais, gan roi pwyslais ar wella presenoldeb yn hytrach na rheoli absenoldeb. Er nad yw'r polisi hwn yn newid y ffordd y rheolir absenoldebau, nid yw ychwaith yn lleihau ein gallu i adolygu a dadansoddi data ar salwch. Mae dadansoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i dargedu adnoddau o ran absenoldeb oherwydd salwch i adrannau lle mae absenoldeb yn uchel er mwyn ceisio lleihau'r absenoldebau oherwydd salwch a chefnogi llesiant ein staff.

Mae camau i wella absenoldebau salwch yn cynnwys parhau i ganolbwyntio ar reoli adrannau problemus, sy'n cynnwys y grwpiau staff rheiny y mae absenoldebau salwch uchaf yn eu plith, hynny yw, gweithwyr cymorth gofal iechyd, ystadau a chyfleusterau a nyrsio a bydwreigiaeth. Er bod gwelliant wedi ei weld yn y lle cyntaf o ganlyniad i'r dull hwn, gwelwyd lefelau salwch yn cynyddu ychydig ymysg pob grŵp staff tua diwedd 2019/20.

Mae cefnogi gwelliant o ran presenoldeb yn y gwaith wedi arwain at nifer o gamau gweithredu:

- Mae 617 rheolwr wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith – hyfforddiant sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur.
- Mae cynrychiolwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi ymuno â theithiau undebau llafur er mwyn cyflwyno negeseuon mewn partneriaeth.

- Mae cydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi nodi meysydd problemus ac maent yn darparu cefnogaeth i staff a rheolwyr fel eu gilydd, er mwyn ceisio lleihau cyfraddau absenoldeb, mae hyn yn cynnwys: Hyfforddiant wedi ei deilwra, hyfforddi, adolygiad o ddulliau atgoffa, rheolaeth a chyfeirio.
- Mae staff wedi cael eu hannog yn frwd i fanteisio ar eu brechlyn fflw.
- Trefnwyd sesiynau iechyd galwedigaethol ychwanegol er mwyn gwella'r mynediad at wasanaethau Iechyd Galwedigaethol a lleihau amseroedd aros yn ystod misoedd y gaeaf.
- Penodwyd adnodd gweinyddol Band 2 ychwanegol o fewn yr Adran Iechyd Galwedigaethol er mwyn gwella cefnogaeth ysgrifenyddol. Mae hyn wedi galluogi staff a rheolwyr fel eu gilydd i gael mynediad cyflymach at gynghor clinigol.
- Penodwyd cwnselwyr ychwanegol er mwyn cefnogi staff yn ystod cyfnod y gaeaf.
- Penodwyd adnodd gweinyddol Band 3 ychwanegol o fewn yr adran Adnoddau Dynol er mwyn cefnogi rheolwyr rheng flaen i reoli absenoldebau salwch dros gyfnod y gaeaf. Mae'r swydd hon wedi ei hystreyn ar gychwyn y pandemig er mwyn helpu i gofnodi a monitro salwch ac absenoldebau sy'n ymwneud â COVID-19.
- Mae staff yn parhau i wneud defnydd mawr o'r mynediad cyflym at ffisiotherapi, wrth i Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol atgyfeirio 10 unigolyn y mis am driniaeth er mwyn atal absenoldeb ac/neu sicrhau bod staff yn dychwelyd yn gynt i'r gwaith
- Mae "Syrjeris Absenoldebau" wedi eu sefydlu yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi rheolwyr i drafod unrhyw broblemau gyda staff y Gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.
- Mae cydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi cysylltu gyda dau sefydliad - Groundwork UK a Case UK - mae'r ddau sefydliad yn cefnogi unigolion sydd wedi bod ar absenoldeb salwch tymor hir o ganlyniad i straen/gorbryder/iselder i ddychwelyd i'r gwaith. Maent yn llunio rhaglenni sy'n seiliedig ar yr unigolyn ac yn cyfeirio er mwyn helpu a chefnogi staff. Gellir atgyfeirio staff drwy Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol neu gallent atgyfeirio eu hunain.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi bod yn gweithio gyda grŵp o undebau credyd er mwyn gwella a chefnogi llesiant ariannol. Dylid nodi bod y fenter hon wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau'r GIG a chafodd ganmoliaeth uchel yn adran pencampwr gweithlu Gwobrau Undebau Credyd Cymru

Gweler isod dabl sy'n amlinellu gwybodaeth bellach ar absenoldeb salwch o fewn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er hyn, rhoddir gwybodaeth am y flwyddyn flaenorol er mwyn gallu cymharu:

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Dyddiau a gollwyd (tymor byr <28 diwrnod)	61,261	53,097	60,406	54,759	68,229
Dyddiau a gollwyd (tymor hir >28 diwrnod)	144,562	147,711	153,345	162,684	194,289
Cyfanswm dyddiau a gollwyd	205,823	200,808	213,751	217,443	262,518
Cyfanswm blynyddoedd staff	902	880	937	954	1156
Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd	14.7	14.2	15.2	15.2	15.2
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (cyfrif pennau)	14,020	14,155	14,012	14,334	14,835
Cyfanswm staff a gyflogwyd heb absenoldeb (cyfrif pennau)	4,919	5,803	4,848	5,016	5,402
Canran y staff oedd heb fod yn sâl	40%	41%	37%	35%	36%

2.6 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Cymeradwywyd y Datganiad hwn gan y Prif Weithredwr fel rhan o'r broses o gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar y 25ain o Fehefin 2020 a gellir dod o hyd iddynt ymysg y ddogfennaeth yma.

2.7 Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr o ran y Cyfrifon

Cymeradwywyd y Datganiad hwn gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad fel rhan o'r broses o gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar y 25ain o Fehefin 2020 a gellir dod o hyd iddynt ymysg y ddogfennaeth yma.

2.8 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Darperir Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd Iechyd fel dogfen ar wahân. Darperir dolen i'r ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws cael mynediad ati: <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

3. Adroddiad Staff a Chydnabyddiaeth Ariannol

3.1 Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfraniad ariannol y rheiny sydd mewn swyddi uwch o fewn y Bwrdd Iechyd sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgarwch y Bwrdd Iechyd. Darparwyd y wybodaeth hon yng Nghyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd ar y 25ain o Fehefin 2020, ond maent wedi cael eu ail-gynhyrchu er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt.

**CYFRIFON BLYNYDDOL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN
2019-20**

**Adroddiad
Cydnabyddiaeth
Ariannol
Hawl Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr
Cydnabyddiaeth Ariannol**

Enw	Teitl	2019-20				2018-19			
		Cyflog (bandiau o £5,000)	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm (bandiau o £5,000)	Cyflog (bandiau o £5,000)	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
		£000	£000	£000	£000	£000	£00	£000	£000
Cyfarwyddwyr Gweithredol									
Judith Paget	Prif Weithredwr	200 - 205	0	20	225 - 230	200 - 205	0	7	205 - 210
Glyn Jones	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad / Dirprwy Brif Weithredwr (Ers 01.07.18)	150 - 155	0	(19)	130 - 135	145 - 150	87	45	195 - 200
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG	110 - 115	6	25	135 - 140	110 - 115	4	20	130 - 135
Bronagh Scott	Cyfarwyddwr Nyrsio (Nes 30.11.18)	0	0	0	0	85 - 90	0	6	90 - 95
Martine Price	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros-dro (O 01.12.18 nes 14.07.19)	35 - 40	0	11	45 - 50	40 - 45	0	42	80 - 85
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Nyrsio (Ers 15.07.19)	90 - 95	0	110	200 - 205	0	0	0	0
Geraint Evans	Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol / Dirprwy Brif Weithredwr (O 01.04.18 i 30.06.18)	130 - 135	0	0	130 - 135	130 - 135	0	0	130 - 135
Dr Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol (Nes 29.03.20) / Cyfarwyddwr Meddygol Dros-dro (Ers 30.03.20)	125 - 130	0	33	160 - 165	120 - 125	0	4	125 - 130
Dr Paul Buss	Cyfarwyddwr Meddygol	195 - 200	0	0	195 - 200	190 - 195	0	0	190 - 195
Peter Carr	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd (Ers 17.10.18)	105 - 110	0	75	180 - 185	45 - 50	0	67	110 - 115
Nick Wood	Prif Swyddog Gweithredu (Nes 09.12.18) / Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Iechyd Meddwl (Ers 09.11.18)	145 - 150	51	34	185 - 190	140 - 145	41	23	170 - 175

Cyfarwyddwr Gweithredu

Claire Birchall	Cyfarwyddwr Gweithredu Dros-dro (O 20.08.18 nes 11.12.18) / Cyfarwyddwr Gweithredu (Ers 12.12.18)	105 - 110	0	45	150 - 155	65 - 70	0	11	75 - 80
-----------------	---	-----------	---	----	-----------	---------	---	----	---------

Ysgrifenydd y Bwrdd

Richard Bevan	Ysgrifenydd y Bwrdd	100 - 105	0	23	125 - 130	100 - 105	0	34	135 - 140
---------------	---------------------	-----------	---	----	-----------	-----------	---	----	-----------

Cynghorydd Arbennig y Bwrdd

Philip Robson	Cynghorydd Arbennig y Bwrdd (Ers 24.05.18)	35 - 40	0	0	35 - 40	30 - 35	0	0	30 - 35
Chris Koehli	Cynghorydd Arbennig y Bwrdd (Ers 15.07.19)	20 - 25	0	0	20 - 25	0	0	0	0

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Ann Lloyd CBE	Cadeirydd	65 - 70	0	0	65 - 70	65 - 70	0	0	65 - 70
Philip Robson	Is-Gadeirydd (Nes 23.05.18)	0	0	0	0	5 - 10	1	0	5 - 10
Emrys Elias	Is-Gadeirydd (Nes 05.11.18)	55 - 60	0	0	55 - 60	20 - 25	0	0	20 - 25
Katija Dew	Aelod Annibynnol (Trydydd Sector / Sector Gwirfoddol)	15 - 20	0	0	15 - 20	15 - 20	0	0	15 - 20
Prof. Dianne Watkins	Aelod Annibynnol (Prifysgol) (Nes 31.12.19)	10 - 15	0	0	10 - 15	15 - 20	0	0	15 - 20
Catherine Brown	Aelod Annibynnol (Cyllid) (Nes 14.09.19)	5 - 10	0	0	5 - 10	15 - 20	0	0	15 - 20
Richard Clark	Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol)	15 - 20	0	0	15 - 20	15 - 20	0	0	15 - 20
Pippa Britton	Aelod Annibynnol (Cymunedol)	15 - 20	0	0	15 - 20	15 - 20	0	0	15 - 20
Frances Taylor	Aelod Annibynnol (Cymunedol) (Nes 31.01.20)	10 - 15	0	0	10 - 15	15 - 20	0	0	15 - 20
Paul Deneen	Aelod Annibynnol (Cymunedol) (Ers 05.03.20)	0 - 5	0	0	0 - 5	0	0	0	0
Shelley Bosson	Aelod Annibynnol (Cymunedol)	15 - 20	0	0	15 - 20	15 - 20	1	0	15 - 20
David Jones	Aelod Annibynnol (ICT)	15 - 20	0	0	15 - 20	15 - 20	0	0	15 - 20
Louise Wright	Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)	0	0	0	0	0	0	0	0
Lorraine Morgan	Aelod Annibynnol Cyswllt (Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid) (Nes 30.09.18)	0	0	0	0	0	0	0	0
Keith Sutcliffe	Aelod Annibynnol Cyswllt (Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid) (Ers 05.03.19)	0	0	0	0	0	0	0	0

Claire Marchant	Aelod Annibynnol Cyswllt (Gwasanaethau Cymdeithasol) (Nes 30.05.18)	0	0	0	0	0	0	0	0
David Street	Aelod Annibynnol Cyswllt (Gwasanaethau Cymdeithasol) (Ers 04.10.18)	0	0	0	0	0	0	0	0
Colin Powell	Aelod Annibynnol Cyswllt (Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol) (Nes 30.11.18)	0	0	0	0	0	0	0	0
Louise Taylor	Aelod Annibynnol Cyswllt (Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol) (Ers 01.10.19)	0	0	0	0	0	0	0	0

	2019-20	2018-19
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ariannol y Band o Gyfarwyddwyr sy'n cael eu talu fwyaf £000	200 - 205	200 - 205
Cyfanswm Canolrif Cydnabyddiaeth	30,038	28,766
Ariannol £ Cymhareb	6.7	7.0

Mae'r cyflog wedi ei adrodd fel tâl gros, sef y tâl cyn i unrhyw gynlluniau cyflog gael eu tynnu allan. Yn ystod 2019-20 aberthodd Nick Wood £5 mil ar gyfer cynllun lesio car, Aberthodd Nicola Prygodzicz £1 mil ar gyfer cynllun cyfrifiadura yn y cartref ac aberthodd Claire Birchall £2 fil er mwyn prynu gwyliau blynyddol ychwanegol drwy'r cynllun sydd ar gael.

Apwyntiwyd y Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro o'r 30.03.20 ymlaen er mwyn sicrhau bod rhywun yn cyflenwi tra roedd y Cyfarwyddwr Meddygol presennol (sy'n ymddeol ar y 30.04.2020) i ffwrdd ar absenoldeb salwch.

Mae'r swydd Cynghorydd Arbennig i'r Bwrdd wedi cael ei datgelu oherwydd caiff ei hystyried yn swydd sydd â dylanwad dros benderfyniadau'r bwrdd.

Mae'r swm o ran buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at y gyfanswm y ffigur cyfan yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio dull sy'n debyg i'r dull a ddefnyddir i darddu gwerth pensiynau ar gyfer dibenion treth ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir gan Asiantaeth Pensiwn NHS BSA.

Caiff gwerth buddion pensiwn eu cyfrifo fel a ganlyn:

(gwir gynnydd o ran pensiwn * x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wneir gan aelodau)

*ac eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw hwn yn swm sydd wedi ei dalu i unigolyn gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau rhain ee newidiadau o ran cyflog unigolyn, a ydynt wedi dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog neu peidio, a ffactorau priso eraill sy'n effeithio cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

CYFRIFON BLYNYDDOL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN 2019-20									
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol (parhad)									
Hawliau Cyflog a Phensiwn Buddion Pensiwn Uwch Reolwyr									
		Gwir gynnydd mewn pensiwn erbyn oedran pensiwn	Gwir gynnydd yng nghyfundaliad pensiwn erbyn oedran pensiwn	Cyfanswm pensiwn cronnus erbyn oedran pensiwn ar 31ain o Fawrth 2020	Cyfundaliad erbyn oedran pensiwn mewn perthynas â phensiwn cronnus ar 31ain o Fawrth 2020	Gwerth Trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31ain o Fawrth 2020	Gwerth Trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31ain o Fawrth 2019	Gwir gynnydd gwerth Trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod	Cyfraniad Cyflogwr i bensiwn rhanddeiliaid
		(bandiau o £2,500)	(bandiau o £2,500)	(bandiau o £5,000)	(bandiau o £5,000)				
Enw	Teitl	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£00
Judith Paget	Prif Weithredwr	0.0 - 2.5	5.0 - 7.5	100 - 105	300 - 305	2,423	2,256	84	0
Glyn Jones	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad / Dirprwy Brif Weithredwr (	0.0 - 2.5	0.0 - 0.0	20 - 25	0 - 0	285	275	(18)	0
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG	0.0 - 2.5	(2.5) - 0.0	40 - 45	100 - 105	773	715	24	0
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Nyrsio (Ers 15.07.19)	5.0 - 7.5	15.0 - 17.5	50 - 55	155 - 160	1,092	891	115	0
Martine Price	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros-dro (nes 14.07.19)	0.0 - 2.5	0.0 - 2.5	50 - 55	150 - 155	1,094	990	18	0

Dr Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol (Nes 29.03.20) / Cyfarwyddwr Meddygol Dros-dro (Ers 30.03.20)	0.0 - 2.5	5.0 - 7.5	40 - 45	125 - 130	1,041	938	63	0
Peter Carr	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd	2.5 - 5.0	5.0 - 7.5	30 - 35	80 - 85	592	505	60	0
Claire Birchall	Cyfarwyddwr Gweithredu	2.5 - 5.0	0.0 - 2.5	35 - 40	75 - 80	616	551	37	0
Nick Wood	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Iechyd Meddwl	2.5 - 5.0	0.0 - 0.0	25 - 30	0 - 0	354	304	21	0
Richard Bevan	Ysgrifennydd y Bwrdd	0.0 - 2.5	(2.5) - 0.0	45 - 50	110 - 115	917	852	30	0
Dewisodd Geraint Evans beidio â bod yn rhan o Gynllun Pensiwn y GIG o fis Mehefin 2017 ymlaen.									
Nid oedd y Dr Paul Buss yn rhan o Gynllun Pensiwn y GIG yn ystod 2018/19 a 2019/20									
Gan nad yw aelodau Anweithredol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol pensynadwy ni fydd cofnodion o ran pensynau ar gyfer aelodau Anweithredol									

3.2 Aelodaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau. Cyhoeddir aelodaeth y Pwyllgor hwn fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cyhoeddir y wybodaeth ar dudalennau 18-21 o'r ddogfen.

Gosodir polisi cydnabyddiaeth ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru a rhoddir canllawiau a gofynion i'r Bwrdd Iechyd. Penderfynir ar y lefelau o ran cydnabyddiaeth ariannol i uwch benderfynwyr y Bwrdd Iechyd yn unol â graddfeydd cyflog cenedlaethol ac mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo lefelau cyflog staff uchel iawn, nad yw graddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid yn berthnasol iddynt.

Mae holl uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i arfarniad blynyddol a phroses APAD y Bwrdd Iechyd. Mae'r broses hon yn gosod amcanion staff ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac mae'n asesu cyrhaeddiad a llwyddiant unigolion yn erbyn yr amcanion rhain.

O ran contractau a deiliadaeth Aelodau'r Bwrdd, gellir penodi'r Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol am dymor hyd at 4 blynedd o hyd, y gellir ei ymestyn hyd at 8 mlynedd o fewn un sefydliad GIG. Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd ar gontractau parhaol yn unol â chanllawiau a gofynion llywodraeth Cymru o ran contractau, ac o ganlyniad mae'n rhaid iddynt roi tri mis o rybudd cyn dod â'r gyflogaeth i ben.

3.3 Perthynas Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae gofyn i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf o fewn eu sefydliad a'r canolrif o ran cydnabyddiaeth ariannol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi ei fandio'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer flwyddyn ariannol 2019-20 oedd £200 mil - £250 mil (2018-19 £200mil - £205mil). Roedd hyn 6.7 gwaith yn uwch (2018-19, 7.0 gwaith) na'r canolrif o ran cydnabyddiaeth ariannol y gweithlu, a oedd yn £30,038 (2018-19, £28,0766).

Yn 2019-20, derbyniodd 14 gweithiwr (2018-19, 16) gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y cyflog uchaf.

Roedd cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr holl staff yn amrywio o £18 mil i £301 mil (2018-19, £17 mil i £273 mil). Roedd cynnydd o 4.4% yn y canolrif o ran cydnabyddiaeth ariannol y gweithlu o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog, datblygiad cyflog cynyddrannol a chyfansoddiad cyfnewidiol y gweithlu.

Mae'r cyfanswm o ran cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a chyflog anghyfunol sydd ynghlwm â pherfformiad. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau na buddion mewn nwyddau nad ydynt, oherwydd eu gwerth, yn berthnasol.

3.4 Adroddiad Staff

3.4.1 Niferoedd Staff (dan gontract sy'n gyfwerth ag amser cyflawn):

9.2 Nifer Cyfartalog o weithwyr 2019-20

	Staff Parhaol	Staff ar Secondiad O'r tu allan	Staff Asiantaeth	Arall	Cyfanswm	2018-19
	Rhif	Rhif	Rhif		Rhif	Rhif
Gweinyddol, Clerigol ac aelodau'r bwrdd	2,237	27	6	0	2,270	2,277
Meddygol a Deintyddol	1,016	6	88	1	1,111	1,073
Nyrsio, Bydwreigiaeth cofrestredig	3,479	1	136	0	3,616	3,562
Proffesiynol, Gwyddonol a staff technegol	418	6	3	0	427	551
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2,316	0	6	0	2,322	2,089
Proffesiynau Perthynol i Iechyd	734	1	21	0	756	725
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	228	0	6	0	234	232
Ystadau a Chefnogol	1,045	0	47	0	1,092	981
Myfyrwyr	3	0	0	0	3	0
Cyfanswm	11,476	41	313	1	11,831	11,490

3.4.2 Cyfansoddiad Staff

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o niferoedd staff ar gyfer pob disgyblaeth a grŵp proffesiynol o fewn y Bwrdd Iechyd.

Isod mae'r dadansoddiad yn ôl rhyw ar gyfer pob grŵp staff:

	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Cyfanswm	9180	2296	11,476

Mae cyfanswm y staff a welir yn y tabl staff yn ôl disgyblaeth yn wahanol i'r cyfanswm a welir yn y tabl uchod gan fod y ffigurau o ran rhyw yn seiliedig ar ddyddiad penodol sef 31ain o Fawrth 2020. Mae'r ffigurau a welir yn y tabl niferoedd staff yn cynrychioli cyfartaledd o ran staff mewn swydd dros gyfnod o 52 wythnos.

3.4.3 Data Absenoldeb Salwch

Darperir y wybodaeth hon yn adran 2.5 (tudalen 4).

3.4.4 Polisiâu Staff a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn

Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith polisiâu, sy'n cwmpasu holl bolisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd, ein staff a'r rheiny

sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r sefydliad neu sydd o dan contract i weithio i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r polisïau rhain hefyd yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig, sef, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn deg, agored a chyfartal o ran pob aelod o staff a'r rheiny sy'n gwneud cais am swydd gyda'r sefydliad. Mae'r polisïau rhain yn cynnwys rhaglenni hyfforddi agored a hygyrch, sy'n hybu cydraddoldeb o ran cyfleoedd ac yn codi ymwybyddiaeth o anghenion pob aelod o staff, ond yn enwedig y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae gan y Bwrdd Iechyd gronfa ddata ar bolisïau, sy'n cael ei reoli a'i arwain yn weithredol gan Bolisi ar Bolisïau a Gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd.

3.4.5 Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghorol

Yn unol â'r hyn a ddatgelwyd yn Nodyn 3.3 y cyfrifon blynyddol, mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion ar y gwariant ar wasanaethau ymgynghorol gan ddarparwyr allanol yn 2019-20.

Ymgynghorwr		£000
Asbri Planning	Gwasanaethau proffesiynol i adolygu a rhoi cyngor i BIPAB o ran Cynllun Datblygu Lleol Torfaen	2
Channel 3 Consulting	Cefnogaeth Ymgynghorol Arbenigol ar Ddilysu Digidol a galluogwyr a argymhellir er mwyn rhoi adolygiad o wasanaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith	99
Compassionate Communities	Darparu gwasanaethau Rheoli Rhaglen, cefnogi a hwyluso'r broses o gyflwyno Gofal yn seiliedig ar Leoedd gan sicrhau ei fod wedi ei wreiddio'n gadarn a gwella cydnerthedd o fewn cymunedau.	300
Creative Incubation	Sefydlu a chyflwyno genie mewn cartrefi gofal gyda phreswylwyr er mwyn cefnogi Trefniadau Llywodraethu a Sicrwydd Cartrefi Nyrsio.	15
Deloitte	Rhoi cyngor o ran IR35, P11D ac Adolygiadau Gweithgarwch Busnes	11
EY	Cwblhau adolygiadau TAW o ran Gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan ac adolygiadau o weithgarwch busnes.	20
Lightfoot Solutions	Cychwyn prosiectau, casglu data, llywodraethu a rheoli prosiectau adeiladu systemau <i>signals from noise</i> (sfn) ac ail datblygu ffurfweddiad ein cynllun ar gyfer y gaeaf er mwyn cadw ein cleifion yn ddiogel	200
Oxford Brookes	Codwyd ffioedd mewn perthynas â Rhaglen Partneriaeth Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus	6
Peopletoo	Gwasanaeth ymgynghorol/cynghori a ddarparwyd i'r Uwch Dim Gweithredol/ y Bwrdd	7
Perinatal Institute	Adnewyddiad Blynyddol y rhaglen Grow Gap	4
Practice Index	Ad-dalu Practis – Practis Grŵp Abertillery	1
Practicus	Ffioedd a ysgwyddwyd wrth roi OMNICELL ar waith	181
Primary Care Commissioning	Taliad a oedd yn weddill o 2018/19 o ran darparu cefnogaeth, mentora, sesiynau wedi eu hwyluso a gweithdai o fewn practis gan weithio gyda staff Meddygfa Teulu er mwyn eu paratoi i symud at fodel gwaith newydd.	2
Cyfanswm		848

3.4.6 Ymgysylltiad oddi ar y Gyflogres

2019/20

Tabl 1: Ar gyfer holl ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres ar y 31ain o Fawrth 2020, am fwy na "245 y dydd, sy'n para mwy na chwe mis

	Total Number
Nifer yr ymgysylltiadau ar y 31ain o Fawrth 2020	19
O'r rheiny, y nifer sydd wedi bodoli am:	
Lai na blwyddyn ar adeg adrodd	5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd	5
Rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	2
Rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	1
Pedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd	6

Tabl 2: Ar gyfer holl ymgysylltiadau Newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rheiny sydd wedi cyrraedd chwe mis o ran hyd, rhwng 1af o Ebrill 2019 a 31ain o Fawrth 2020, am fwy na "245 y diwrnod ac sy'n para'n hirach na chwe mis.

	Total Number
Nifer yr ymgysylltiadau newydd, neu'r rheiny a gyrhaeddodd chwe mis o hyd rhwng 1af o Ebrill 2019 a 31ain o Fawrth 2020	5
O'r rheiny...	
Y nifer a ddaliwyd gan IR35	0
Y nifer a aseswyd ond na ddaliwyd gan IR35	5
Nifer yr ymgysylltwyd â hwy yn uniongyrchol (drwy'r PSC dan gontract i'r adran) ac sydd ar gyflogres yr adran	0
Nifer yr ymgysylltiadau a ail-aseswyd ar gyfer dibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid o ran statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb	0

Tabl 3: Ar gyfer unrhyw ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1af o Ebrill 2019 a 31ain o Fawrth 2020. Nid oes unrhyw ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol wedi bod rhwng 1af o Ebrill 2019 a 31ain o Fawrth 2020.

	Cyfanswm
Nifer ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Nifer yr unigolion a ystyriwyd yn "aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres ac ymgysylltiadau ar y gyflogres.	11

(Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwr Gweithredu a nodir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol)

3.4.7 Pecynnau Gadael

Tra roedd Cyfrifon Blynnyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020/10 yn cael eu cwblhau, eu harchwilio a'u cyflwyno, ni ddaethpwyd o hyd i gofnod o unrhyw becynnau gadael, ac felly nid yw'r Cyfrifon Blynnyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at becynnau gadel (Nodyn 9.5). Ond wrth baratoi'r adroddiad atebolrwydd, cafwyd cadarnhad bod un pecyn gadael wedi ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn. Dylai'r pecyn hwn fod wedi cael ei ddatgelu yn y Cyfrifon Blynnyddol. Gwerth y pecyn gadael oedd £40 mil ac roedd yn cynnwys £20 mil yn gyfnewid am rybudd gadael a £20 mil o daliad terfynu.

4. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio – Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4.1 Rheoleidd-dra Gwariant

Ysgwyddwyd gwariant gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2019/20 yn unol â'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.2 Ffioedd a Thaliadau

Ysgwyddodd y Bwrdd Iechyd gostau o £0.382 miliwn i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu archwiliad.

4.3 Rheoli Arian Cyhoeddus

Dyma'r Datganiad i Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus y cyfeiriwyd ato yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Yn unol â'r hyn y mae Cyrff GIG eraill yng Nghymru yn ei wneud, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau 'Rheoli Arian Cyhoeddus' Trysorlys ei Mawrhydi. Mae'r canllawiau'n gosod y prif egwyddorion o ran delio gydag adnoddau o fewn Sector Cyhoeddus y DU. O ganlyniad, fe ddylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran dyrannu cost a thaliadau y canllawiau rhain. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o unrhyw sefyllfa lle nad yw hyn wedi digwydd.

4.4 Rhwymedigaethau Digwyddiadol annhebygol

Cyflwynwyd y datgeliad hwn am y tro cyntaf yn 2015-16. Mae'n dangos y rhwymedigaethau digwyddiadol rheiny a ystyrir yn rhai annhebygol iawn ac sydd heb eu datgelu'n flaenorol o fewn y nodyn rhwymedigaeth digwyddiadol arferol yn y cyfrifon. Mae'n ymwneud â 3 achos o esgeluster meddygol yn 2019/20 (9 achos o esgeluster meddygol yn 2018/19) a cheir adroddiad arnynt yn Nodyn 21.2 y prif gyfrifon.

4.5 Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31ain o Fawrth 2020, o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei defnyddio wrth baratoi'r datganiadau rhain yn gyfraith gymwys ac mae Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi wedi ei selio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Fy marn i ar y datganiadau ariannol yw:

- eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y 31ain o Fawrth 2020 a'i gostau gweithredol net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- eu bod wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddyd roddwyd yn unol â'r ddeddf gan Weinidogion Cymru.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau yma eu disgrifio ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwiliwr sy'n cynnal yr archwiliad or datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r bwrdd yn unol a'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol i Archwilwyr, rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion yma. Rwyf o'r farn bod y dystiolaeth yr wyf wedi ei chasglu ar gyfer yr archwiliad hwn yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'm barn.

Pwyslais Mater

Tynnaf sylw at Nodyn 21.1 yn y datganiadau ariannol, sy'n egluro effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar y 18fed o Ragfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhoi cyfarwyddiad iddi ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG a ysgwyddwyd gan Gyrff GIG Cymru o ran blwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datgelu bodolaeth rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar 31ain o Fawrth 2020, ac nid yw fy marn wedi newid yn dilyn ystyriaeth o'r mater hwn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar y materion canlynol y mae gofyn i mi adrodd arnynt yn unol â'r Safon Rhyngwladol ar Archwilio (DU):

- nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r Prif Weithredwr wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol a all fwrw amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w defnyddio.

Gwybodaeth Arall

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar y rheiny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynglŷn â'u sicrwydd.

Mawn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad, neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu gamgymeriadau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion sydd wedi eu cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w archwilio wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006 a chyfarwyddyd a wnaed o dan y ddeddf gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson gyda'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn y Rhagair na'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn fy marn i:

- Ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi na Gweinidogion Cymru o ran cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg a chyfrifoldeb dros reolaeth fewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn teimlo sy'n briodol i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol hab gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Bwrdd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nodau yw rhoi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall ac fe'u hystyriar yn

berthnasol, pe byddai'n rhesymol ystyried y gallent, yn unigol neu'n rhan o'r cyfanwaith, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso ar y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2il o Orffennaf 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ